

Castell Cas-gwent



Y porthdy gyda dau dŵr sy'n gwarchod y fynedfa i'r castell.

Gwybodaeth ar gyfer arweinwyr grwpiau addysg

Mae Castell Cas-gwent ymhlith y cestyll niferus a godwyd i ddiogelu'r ffin â Chymru, a manteisiai ar safle amddiffynnol naturiol. Mae ei amddiffynfeydd sylweddol a'r adeiladau domestig yn cynnig tystiolaeth glir o rolau amrywiol cestyll yn y cyfnod canoloesol a sut y'u haddaswyd ar gyfer defnydd a meddiannaeth ddiweddarach. Bydd ymweliad yn ategu datblygiad sgiliau ac ymholiad hanesyddol ym mhob Cyfnod Allweddol.

Hanes

Sefydlwyd y castell gan William fitz Osbern, cefnogwr teyrngar i Gwilym Goncwerwr. Y tŵr mawr oedd y strwythur carreg cyntaf a adeiladwyd, gan ymgorffori gwaith carreg o'r dref Rufeinig gyfagos yng Nghaer-went. Yn 1189 daeth y castell i feddiant William Marshal, a ddefnyddiodd ei wybodaeth o dechnoleg cestyll ddatblygedig yn y Tir Sanctaidd i atgyfnerthu Castell Cas-gwent. Etifeddodd pob un o'i pum mab y castell, gan barhau i wella'r castell. Ar ôl marwolaeth y mab olaf, daeth y castell i feddiant teulu Bigod. Yn 1270 addasodd Roger Bigod y castell i fod yn gadarnle palasaidd, gan godi adeiladau helaeth yn y beili isaf. Yn 1507, daeth Charles Somerset yn arglwydd Cas-gwent. Enillodd nawdd Henri VII a Henri VIII, ac adeiladodd gyfres o ystafelloedd ar bob ochr o'r mur sy'n rhannu'r beili isaf a'r beili canol. Yn ogystal, gwnaeth welliannau i adeiladau eraill, gan ychwanegu ffenestri newydd, mwy o faint, a lleoedd tân. Cipiwyd y castell ddwywaith gan y Seneddwr yn ystod y Rhyfel Cartref. Wedi hynny, atgyweiriwyd ei amddiffynfeydd, ac fe'u diwygiwyd ar gyfer magnelau, ac ychwanegwyd cloerdyllau gynnau ar gyfer tanio mwsgedi. Defnyddiwyd y castell fel barics ac fel carchar ar gyfer gwrthwynebwyr gwleidyddol. Pan ddadfyddinwyd y garsiwn yn 1685, dymchwelwyd rhannau o'r castell a gwnaed defnydd o'r beili isaf fel ardal ddiwydiannol. Yn dilyn gwaith clirio a chadwraeth gan ddug Beaufort yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg, gosodwyd y castell dan warchodaeth y Wladwriaeth yn 1953.

 Cadw



Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government



Arwyneb mewnol drysau gwreiddiol y castell o'r prif borthdy. Maent yn dyddio o gyfnod nid hwyrach na'r 1190au.

Edrych ar y castell

Y tu allan

- Edrychwch ar leoliad y castell a'i ddefnydd o amddiffynfeydd naturiol.
- Nodwch newidiadau a wnaed ers y cyfnod canoloesol (fffenestri Tuduraidd, amddiffynfeydd o'r ail ganrif ar bymtheg).
- Tynnwch sylw at siâp, maint a lleoliad y tyrrau, a'r cloerdyllau saethau ar uchderau amrywiol er mwyn gwarchod cymaint o'r llenfur â phosibl.
- Tynnwch sylw at y tyllau pwtlog, a ddefnyddiwyd i gynnal sgaffaldwaith ar gyfer adeiladu ac atgyweirio'r castell.

Y Porthdy

Credir mai hwn yw'r porthdy hynaf gyda dau dŵr yn ynysoedd Prydain. Roedd tyrrau crwn yn haws i'w hamddiffyn: nid oedd corneli dall ganddynt, ac nid oedd yn hawdd i'w dymchwel trwy danseilio. Roeddynt hefyd yn gallu gwyro taflegrau yn well na thyrrau gyda blaenau gwastad. Y tŵr agosaf at yr afon oedd carchar y castell.

Elfennau amddiffynnol y porthdy:

- olion y barbican
- drysau trwchus wedi'u gorchuddio â haearn (mae'r drysau gwreiddiol yn yr arddangosfa)
- paraped bargodol y gellid hyrddio taflegrau ohono
- dau dwll llofruddio ar ddechrau tramwyfa'r porth
- agennau ar gyfer dau borthcwlis
- tyllau sgwâr ar hyd y brig i gynnal hwrd (sef llwyfan ymladd pren a oedd yn bargodi allan dros y llenfur)
- cloerdyllau saethau cul (mae'r ffenestri mawr o gyfnod y Tuduriaid).

Y beili isaf

Cyfes helaeth o adeiladau domestig a adeiladwyd gan Roger Bigod yn y drydedd ganrif ar ddeg. Defnyddiwyd y mur allanol sy'n wynebu'r iard i helpu esbonio'r cynllun mewnol.

Y gegin

Tair ffenestr ddiwydr a osodwyd yn uchel i fyny i daflu cymaint o olau â phosibl ar y mannau gweithio. Sail ffwrn fawr yn y gornel. Sianel gwaredu gwastraff yn y llawr. Drws i ymyl clogwyn y byddai cyflenwadau yn cael eu tynnu trwyddo o gychod islaw.

Ardaloedd gwasanaeth

Mae gan y dramwyfa wasanaeth agoriad mawr a arferai weithredu fel tri gorddrws gwasanaeth. Pâr o gypyrddau a drws i geudai gerllaw.

Mae drws o'r grisiau i lawr i'r seler yn arwain i falconi preifat a ddefnyddid gan yr arglwydd sy'n edrych dros yr afon.

Seler ar gyfer storio casgenni o gwrw a gwin. Drws i ymyl clogwyn er mwyn winsio casgenni i fyny o gychod islaw.



Y drws i'r tŵr mawr.

Y neuadd fawr

Ceid mynediad iddi trwy gyntedd crand, a gynlluniwyd i wneud argraff ar ymwelwyr. Yn y pen gorllewinol, lle byddai esgynlawr wedi'i leol, ceir ystafell fach i'w defnyddio gan yr arglwydd a'i westeion. Ar y mur gyferbyn ceir tri drws sy'n arwain at y gegin, y bwtri a'r pantri, a byddai'r gweision yn cludo bwyd a diod mewn gorymdaith o'r gegin. Mae'r drws uchaf ar y chwith yn arwain at siambrau'r iarll.

Gwresogwyd y neuadd fawr gan aelwyd ganolog a phedyll tân.

Tŵr Marten

Tŵr canoloesol a adeiladwyd fel llety i westeion pwysig iawn. Muriau trwchus iawn.

Mae gan yr ystafelloedd llawr cyntaf ac ail lawr lefydd tân a geudai preifat. Olion plastr ar y muriau, a baentiwyd yn ocr coch a melyn.

Mae ffenestri cul yn wynebu'r dref. Mae ffenestri mwy (a wnaed hyd yn oed yn fwy yng nghyfnod y Tuduriaid) yn wynebu'r iard. Ceir seddi yn ffenestri'r ail lawr.

Agennau porthcwlls ar y prif ddrws a drysau sy'n arwain at rodfeydd y muriau o bobtu'r tŵr.

Capel gyda manylion cerfiedig cain ar lefel y to.

Rhodfa'r mur gyda murfylchau. Cerfluniau ar y murfylchau a gynlluniwyd i wneud argraff.

Y beili canol

Ceid mynediad iddo drwy borth bach a amddiffynnwyd gan dŵr siâp D tri llawr. Addaswyd y llawr gwaelod i fod yn gegin yng nghyfnod y Tuduriaid gyda lle tân mawr a ffwrn gromennog. Nid oedd mynediad mewnol i'r llawr uchaf o lefel y ddaear. Ceid mynediad i'r ystafelloedd uchaf o rodfa'r mur.

Tŵr cornel crwn: addaswyd yn sylweddol yng nghyfnod y Tuduriaid i ddarparu llety ceinach. Addaswyd ar ddiwedd yr ail ganrif ar bymtheg ar gyfer magnelau.

Y tŵr mawr

Prif fynedfa addurnedig — cynlluniwyd i wneud argraff ar ymwelwyr.

Dau lawr yn wreiddiol. Nid oedd unrhyw ffenestri yn wynebu tuag allan pan y'i hadeiladwyd. Roedd y llawr uchaf yn un ystafell hir i gychwyn gyda ffenestri cul pen crwn (mae un yn goroesi o hyd; gellir gweld safle'r lleill yn y gwaith maen).

Tyllau distyn ar gyfer pren y llawr cyntaf. Islawr a ddefnyddid ar gyfer storfa ac fel arfdy. Ffenestri bach. Nid oedd mynediad mewnol o'r islawr i'r llawr cyntaf.

Roedd drws allanol ar y llawr cyntaf tuag at y pen gorllewinol.

Cilfachau hanner crwn: addurnwyd gyda phlastr paentiedig — atgynhyrchwyd yr addurniad mewn un ohonynt.



Rhan o'r bwa a adeiladwyd i rannu'r ystafell yn y drydedd ganrif ar ddeg. Mae'r gwaith cerfio o'r safon uchaf.

Yn ddiweddarach, rhannwyd y llawr cyntaf yn ddau gan bâr o fwâu mawr addurnedig. Ychwanegwyd ystafell ail lawr uwchben y pen gorllewinol ar yr un adeg. Gosodwyd tair ffenestr addurnedig yn lle'r ffenestri cul ar y llawr cyntaf. Roedd gwydr yn y rhan uchaf yn unig; Roedd caeadau gan y rhannau isaf. Ceir seddi ffenestri ymhob un.

Yn ddiweddarach eto, cwblhawyd gweddill yr ail lawr. Mae drws ar yr ail lawr yn arwain i'r to.

Y beili uchaf

Ceid mynediad iddo o'r beili canol trwy'r galeri.

Tŵr Marshal: llety preifat oedd y llawr uchaf, mae'n bosib mai cegin oedd y llawr daear. Ceir olion murfylchau a chloerdyllau saethau ar y to. Mae'r rhes o dyllau soced islaw'r murfylchau ar gyfer hwrdd pren. Y tŵr hwn oedd rhan fwyaf gorllewinol y castell i ddechrau, gostyngwyd y llenfur gan ei wneud yn fwy trwchus yn yr ail ganrif ar bymtheg i gynnal magnelau a'u gwrthsefyll. Ychwanegwyd cloerdyllau mwsgedau yn y mur sy'n edrych dros yr afon.

Y barbican uchaf

Adeiladwyd i ychwanegu amddiffynfa ychwanegol i'r ochr hon o'r castell. Roedd lefel y ddaear yn uwch — mae rhes y marciau cloerdyllau saethau yn nodi lefel wreiddiol y llawr.

Ffos a dorwyd mewn craig: Hon oedd ymyl orllewinol wreiddiol y castell. Roedd drws cul ar y gwaelod y caniatáu i amddiffynwyr adael y castell a chael mynediad iddo gan osgoi sylw.

Olion rhodfa'r mur a'r murfylchau.

Tŵr y de-orllewin: llwyfan ymladd cefn agored ar dair lefel i amddiffyn cornel wan o'r castell. Mae cloerdyllau saethau yn gwarchod rhan helaeth o'r llenfur y tu allan.

Porthdy gyda thyllau llofruddio, porthcwlis a phont godi. Am resymau diogelwch ceir mynediad i'r ystafelloedd uchaf yn unig, o rodfa'r mur.

Cyn eich ymweliad

Edrychwch ar fap o'r ardal. Pam yr adeiladwyd y castell yno? Nodwch amddiffynfeydd naturiol.

Edrychwch ar gynllun y castell. Pam y cynlluniwyd y castell fel y mae? Pam y lleolwyd adeiladau yn y manau lle'r oeddynt?

Esboniwch swyddogaethau cestyll: cartref caerog ar gyfer arglwydd neu fel canolfan weinyddiaeth.

Ymchwiliwch sut yr ymosodwyd ar gestyll, a sut y'u hamddiffynnwyd.

Trafodwch gyda phlant yr hyn y gallant ddisgwyl ei weld yn ystod eu hymweliad. Gofynnwch i blant dynnu lluniau o'r cestyll ymlaen llaw, a dewch a'r lluniau gyda chi ar eich ymweliad.

Ymarferwch y sgiliau hynny rydych eisiau i blant eu defnyddio wrth edrych ar y castell — arsylwi, disgrifio, cofnodi a defnyddio cynlluniau.

Manteisiwch ar eich ymweliad rhagbaratoawl am ddim i gynllunio eich gweithgareddau ar y safle.



Y castell tua 1520. Mae fersiwn lliw maint A4 o'r llun hwn ar gael i'w lawrlwytho ar wefan Cadw.

Syniadau ar gyfer gweithgareddau ar y safle

Ymosod ac amddiffyn

Sut byddech yn cynllunio ymosodiad ar y castell? Edrychwch am y manau gwan. A allech chi ddefnyddio tactegau gwrthdynciadol? Pa beiriannau gwarchae allech chi eu defnyddio, a ble?

Pa elfennau amddiffynnol a ymgorfforwyd yn y porthdy? Sawl rhwystr y gallai fod yn rhaid i lu ymosodol eu goresgyn i gael mynediad i'r castell? Pa ddulliau a ddefnyddiwyd gan amddiffynwyr i atal ymosodwyr?

Sut byddai dinasgyddion Cas-gwent wedi teimlo tybed, wrth gerdded i fyny i'r prif borthdy heibio Tŵr Marten yn y cyfnod canoloesol? Beth fyddent wedi ei weld?


Cymharwch amddiffynfeydd pob beili a'u pyrth. P'un sydd â'r amddiffynfeydd cryfaf? Efallai y gallwch wneud hyn drwy chwarae rôl ysbïwr sydd wedi sleifio i mewn i'r castell.

Byw yn y castell

Edrychwch ar sut roedd yr adeiladau gwasanaeth yn gweithredu. Dilynwch lwybr bwyd a diod a ddygwyd i mewn i'r castell: o ben y clogwyn, i'r man y'i harchwiliwyd cyn ei storio. Symudwch ymlaen i'r ystafelloedd lle y paratowyd a choginiwyd y bwyd, ac yna ymlaen i'r ystafell arlwyo lle y'i trefnwyd cyn ei gario mewn gorymdaith i mewn i'r neuadd fawr ac i fyny i'r ford fawr yn y pen pellaf.

Edrychwch ar fur allanol yr adeiladau domestig yn y beili isaf er mwyn deall ei gynllun a'r perthynas rhwng yr adeiladau gwahanol o'i fewn.

Olrhainiwch tri chyfnod adeiladu'r tŵr mawr. Defnyddiwch arddull a siâp ffenestri o gyfnodau gwahanol i nodi'r dilyniant.



A adeiladwyd y tŵr mawr i gychwyn fel preswylfan neu at ddiben arall? Sut yr addaswyd y tŵr ar ôl hynny?

Canolbwyntiwrch ar safle a chynllun y drysau i helpu penderfynu sut roedd y tŵr mawr yn gweithredu. Edrychwch am y brif fynedfa addurniedig, y drws i'r siambr llawr cyntaf, y fynedfa'r islawr; y drws i'r to a'r fynedfa gul ar lefel y llawr cyntaf ar y pen gorllewinol.

Pa dystiolaeth yn Nhŵr Marten sy'n nodi y bwriadwyd hyn i fod yn breswylfa fawreddog? Rhestrwch gyfleusterau pob ystafell. P'un oedd yr ystafell orau yn y tŵr?

Edrychwch ar agweddau ar dechnoleg adeiladu ganoloesol-coginio, gwresogi, goleuo, a'r ddarpariaeth o ddŵr; glanweithdra a gwaredu gwastraff.

Eich ymweliad

Cyrraedd yno

Ceir arwyddbyst i Gas-gwent o'r M4 a'r M48. Mae'r castell yng nghanol y dref. Mae maes parcio talu ac arddangos gyda thoiledau cyhoeddus a chanolfan groeso 100m o fynedfa'r castell.

Cyfleusterau

Siop anrhegion ac arddangosfa. Paneli gwybodaeth ar y safle. Dim ond ar y mwnt y tu allan i'r castell y caniateir picnic.

Mynediad

Tirwedd lethrog.

Mae grisiau serth yn rhoi mynediad i lenfur a lefelau uwch y tyrrau.

Ceir mynediad i lefel uwch yr arddangosfa i fyny grisiau.

Mae taflen wybodaeth peryglon ar gael.

Ceir mynediad am ddim i ymwelwyr anabl a'u cynorthwyyr i'r holl henebion. Dylech nodi ni chaniateir cŵn ar safleoedd Cadw am resymau iechyd, ond croesewir cŵn tywys.

Mae rhagor o wybodaeth, cymorth a chynngor ynglŷn ag ymweld â'r castell ar gael gan y ceidwad, sydd hefyd yn gallu trefnu **ymweliad cynllunio am ddim** ar gyfer arweinwyr grwpiau.

Y Ceidwad, Castell Cas-gwent, Cas-gwent NP16 5EY
Ffôn 01291 624065

Prynwch dywyslyfr arddull newydd Castell Cas-gwent gyda gostyngiad o 25% ar gyfer defnydd addysgol o adran werthiant Cadw ym mhrif swyddfa Cadw.

Ffôn: 01443 336 092/094 E-bost: cadw.sales@wales.gsi.gov.uk

Gellir llwytho copïau o adluniadau artistiaid, gydag awgrymiadau am weithgareddau addysg, o wefan Cadw.

Cadw
Llywodraeth Cynulliad Cymru
Plas Carew
Uned 5/7 Cefn Coed
Parc Nantgarw
Caerdydd CF15 7QQ
Ffôn 01443 33 6000
Ffacs 01443 33 6001
Ebost cadw.education@wales.gsi.gov.uk
Gwefan www.cadw.cymru.gov.uk



Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government